# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**7/1/25**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones a Rhodri Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**Ymddiheuriadau:** Euros Roberts.

**3122 Croesawyd pawb** gan y Cadeirydd a dymunwyd blwyddyn newydd dda i bawb. Croesawyd y clerc i'w gyfarfod cyntaf yn ei rôl newydd.

**3123 Ymddiheuriadau:** Nid oedd ymddiheuriad.

**3124 Datganiadau o fuddiant:** Nid oedd buddiant i'w ddatgan

**3125 Cofnodion Cyfarfod Rhagfyr 2024:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3126 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Ymddeoliad Lis a Bethan: Cyfeiriwyd at ymddeoliad Lis Puw fel Clerc a Bethan Edwards fel Swyddog Cyllid. Nodwyd fod y ddwy wedi rhoi gwasanaeth clodwiw i'r cyngor ac i'r ardal am gyfnod maith, ac fe gytunwyd i ysgrifennu atynt ar ran y cyngor i ddiolch am eu holl waith ac i ddymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

ii. Apwyntiad Clerc: Nodwyd fod Huw Antur wedi cychwyn fel Clerc a Swyddog Cyllid ers Ionawr 1af, a bod y cytundeb gwaith etc wedi ei gwblhau gan aelodau'r Pwyllgor Cyllid.

iii. Sedd wag y cyngor – adroddwyd fod Huw Antur wedi ymddiswyddo fel aelod o'r cyngor, a bod sedd wag felly ar y cyngor. Cytunwyd i hysbysebu'r cyfle i lenwi'r sedd yn y modd arferol.

iv. Archwiliad Cyfrifon 2022/2023 a 2023/2024: Adroddwyd fod yr archwiliad wedi ei gwblhau ac fe gytunwyd i roi'r Hysbyseb Archwilio ar wefan a hysbysfwrdd y cyngor.

v. Gwasanaeth bysus T3: Derbyniwyd gwybodaeth yn nodi nad yw gwasanaeth bws T3 i fod i stopio wrth y garej.

vi. Clirio palmentydd y pentref: Nodwyd nad yw palmentydd y pentre wedi eu sgubo yn dilyn cwymp y dail, a dywedodd Alan Jones-Evans y byddai'n ail gysylltu â Chyngor Gwynedd. Gwnaed trefniadau i chwalu halen ar y palmentydd ar Ionawr 8fed gan fod rhagolygon o rew am rai dyddiau a'r palmentydd yn beryglus i gerddwyr.

vii. Cyfraniad i Griw Eirys: Cadarnhawyd y penderfyniad i gyfrannu £200 tuag at y clwb gofal plant Criw Eirys.

viii. Tabled llechen a recordwyr sain: Cadarnhawyd y penderfyniad i drosglwyddo'r offer i waith yr Ofalaeth Fro a Chriw Eirys.

ix. Prosiect Awyr Dywyll: Derbyniwyd cadarnhad gan y Parc Cenedlaethol eu bod yn bwrw 'mlaen gyda'r gwaith yma mewn cydweithrediad r gwaith yma mewn cydweithrediad â'r Cyngor Cymuned.

**3127 Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Cafwyd adroddiad ar y gwaith o glirio draeniau ger Glanlliw, a nodwyd fod gwaith pellach ar y gweill i rwystro dwr rhag mynd i fewn i'r tai. Adroddwyd fod datrysiad i'r broblem biniau ailgylchu ger cyffordd Brynllech, ond bod angen biniau a chaeadau newydd i'r safle.

**3128 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu – heb gyfarfod yn ddiweddar.
2. Mynwentydd – heb gyfarfod yn ddiweddar.
3. Bioamrywiaeth: Derbyniwyd adroddiad o waith yr is bwyllgor, ac fe gytunwyd i roi'r adroddiad ar wefan y cyngor.
4. Nadolig: Derbyniwyd adroddiad o waith yr is bwyllgor, ac fe ddiolchwyd iddynt am eu gwaith dros dymor y Nadolig. Cytunwyd i dalu costau'r gwahanol offer a gweithgareddau. Trafodwyd rhai syniadau ar gyfer Nadolig 2025 – hyn i'w drafod ymhellach gan yr is bwyllgor dros y flwyddyn nesaf.
5. Asedau: Penderfynwyd gofyn i Owain Pugh drwsio'r Hysbysfwrdd gyferbyn â'r Eglwys a nodwyd fod Elis Garmon am roi sylw i'r meinciau.
6. Cyllid: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o Is Bwyllgor Cyllid y cyngor a gyfarfu ar Ionawr 7fed, ac fe gytunwyd i dderbyn argymhellion y pwyllgor i osod cyllideb gwariant o £21,661.00, ac i osod praesept o £16,800 am flwyddyn ariannol 2025/2026, hyn yn golygu gwneud defnydd o £4,861 o falansau'r cyngor a threth cyngor o £50.20 i gartrefi Band D.

**3129 Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

Cyflog y Clerc a CThEF.
Cytundeb glanhau a biliau trydan y toiledau.
CCF – nwyddau glanhau £53.65
Cyfraniad Criw Eirys £200.00
Costau banc.
Costau Swyddfa'r Clerc.
Aelodaeth Mantell Gwynedd £10.00.
Ffi paratoi cyflogau Mantell Gwynedd £300.00

**3130 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y fenter yn parhau gyda gwelliannau i'r Eagles a chyda gwaith cychwynnol i ddarparu tai i bobl leol.

**3131 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Nodwyd fod y gwaith cyfreithiol o sicrhau prydles ar Ganolfan Bro Tegid wedi ei gwblhau, a'r gwaith o uwchraddio'r adeilad wedi cychwyn.

**3132 Ceisiadau cynllunio:** Nid oedd ceisiadau i'w hystyried.

**3133** **Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn:

i. Ymgynghoriad Etholaethau Senedd Cymru.
ii. Llythyr gan Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor yn nodi rhaniad eu gwahanol gyfrifoldebau seneddol.
iii. Un Llais Cymru: Hysbyseb swydd Swyddog Datblygu Gogledd Cymru.

**3134** **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nid oedd materion ychwanegol i'w trafod.

**3135** **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 4/2/25 am 7.30pm.